Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl a'i waith

## Gwybodaeth i gleifion



# Amdanom ni

Ni yw rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd a'r arolygiaeth ar gyfer gwasanaethau'r GIG yng Nghymru. Ein rôl yw gwirio bod gofal iechyd yn ddiogel, yn effeithiol ac yn diwallu anghenion pobl a chymunedau.

## Ein diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

## Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

# Cysylltu â Ni

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

**Ffôn:** **0300 062 8163**
**E-bost:** **HIW.RSMH@gov.wales**
Gwefan: **www.agic.org.uk**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. / This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron 2026 WGXX ISBN Digidol XX

# Cyflwyniad i'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl

## Beth yw diben y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl?

- Rôl y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl, sydd wedi'i leoli o fewn Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yw adolygu'r defnydd o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn barhaus a sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei defnyddio'n briodol.
- Mae'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl yn gweithredu'n annibynnol ar holl staff a rheolwyr ysbytai a thimau iechyd meddwl
- Mae Adolygwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnwys meddygon, nyrsys, gweithwyr cymdeithasol, cyfreithwyr, seicolegwyr, defnyddwyr gwasanaethau a phobl eraill sydd â gwybodaeth am y Ddeddf a gwasanaethau iechyd meddwl.
- Mae'r Adolygwyr yn ymweld â phob lleoliad lle y caiff cleifion eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac yn cwrdd â nhw yn breifat
- Mewn rhai amgylchiadau, mae'r Gwasanaeth Adolygu hefyd yn trefnu i feddyg annibynnol roi ail farn os nad ydych yn gallu cydsynio i'ch triniaeth neu os nad ydych yn fodlon gwneud hynny.
- Gall y Gwasanaeth Adolygu ymchwilio i rai mathau o gŵynion sy'n ymwneud â gweinyddu a chymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn briodol
- Mae'r Gwasanaeth Adolygu yn cyhoeddi adroddiad ar ei weithgareddau a'i ganfyddiadau bob blwyddyn.

## Sut mae'r Adolygwyr yn mynd ati?

Mae'r Adolygwyr yn ymweld â phob ward lle y caiff cleifion eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ac mae'n bosibl y byddant hefyd yn ymweld â lleoliadau eraill i gwrdd â chleifion sy'n destun gwarcheidiaeth neu Orchymyn Triniaeth Gymunedol er mwyn gwirio'r canlynol:

- Bod y cleifion hynny yn cael eu cadw'n gyfreithlon ac yn cael gofal da
- Bod y cleifion hynny yn gwybod am eu hawliau o dan y Ddeddf
- Bod y cleifion hynny yn cael eu parchu am eu rhinweddau, eu galluoedd a'u cefndiroedd amrywiol fel unigolion, a bod eu hanghenion o ran oedran, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chefndir cymdeithasol, ethnig, diwylliannol a chrefyddol yn cael eu hystyried
- Bod Cod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael ei ddilyn (gofynnwch i staff y ward ddangos copi o'r Cod i chi)

- Bod y cynlluniau cywir yn cael eu gwneud ar gyfer cleifion cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Yn ystod ymweliadau, bydd yr Adolygwyr yn cwrdd â chleifion sydd wedi'u cadw ac yn siarad â nhw'n breifat.

Bydd yr Adolygwyr hefyd yn cwrdd â rheolwyr ac aelodau eraill o staff i siarad am bethau sy'n effeithio ar ofal a thriniaeth cleifion, ac i godi materion ar ran cleifion.

## Yr hyn na all y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl ei wneud

Ni all y Gwasanaeth Adolygu wneud y canlynol:

- Eich rhyddhau o'ch cyfnod cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Eich rhyddhau o'r ysbyty
- Trefnu cyfnod o absenoldeb ar eich rhan
- Eich trosglwyddo i ysbyty arall
- Cynnig cyngor meddygol unigol
- Cynnig cyngor cyfreithiol unigol
- Helpu cleifion anffurfiol.

Mae hyn oherwydd bod y gyfraith yn glir iawn ynglŷn â'r hyn y gallwn a'r hyn na allwn ei wneud, nid oherwydd nad ydym am eich helpu. Gall yr Adolygwyr roi gwybod i chi o ble arall y gallech gael yr help hwn.

# Gwybodaeth am Gydsynio i Driniaeth

## Y rheolau cydsynio i driniaeth ar gyfer meddyginiaeth

Dim ond i feddyginiaeth ar gyfer eich anhwylder meddwl y mae'r rheolau hyn yn berthnasol. Nid ydynt yn caniatáu i'ch clinigydd eich gorfodi i gael triniaeth ar gyfer salwch corfforol. Fodd bynnag:

- Ar gyfer rhai triniaethau, mae angen eich cydsyniad chi neu gytundeb gan feddyg annibynnol sy'n rhoi ail farn
- Mae'r rheolau cydsynio i driniaeth ar gyfer meddyginiaeth yn Neddf Iechyd Meddwl 1983 yn gymwys ar ôl y tri mis cyntaf

- Mae'r rheolau hefyd yn berthnasol i roi therapi electrogynhyrfol (ECT).

## Y tri mis cyntaf o feddyginiaeth

Pan fyddwch yn cael eich cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1953 mae'r cyfnod o dri mis yn dechrau ar y dyddiad y rhoddir meddyginiaeth am eich cyflwr i chi am y tro cyntaf. Yn ystod y cyfnod hwn, dylai eich clinigydd wneud y canlynol:

- Egluro beth yw diben y feddyginiaeth
- Egluro'r sgil-effeithiau tebygol (os o gwbl)
- Gofyn am eich cydsyniad cyn presgripsiynu'r feddyginiaeth.

Os na fyddwch yn cydsynio, neu os ydych yn rhy sâl i roi eich cydsyniad, a bod eich clinigydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol i chi gael y feddyginiaeth, rhaid i chi ei chymryd am hyd at dri mis.

## Ar ôl y tri mis cyntaf o feddyginiaeth **gyda'ch** cydsyniad

- Ar ôl y tri mis cyntaf o feddyginiaeth, rhaid i'ch clinigydd gael eich cydsyniad i barhau i gymryd y feddyginiaeth
- Os byddwch yn rhoi eich cydsyniad, bydd eich clinigydd yn llenwi **Ffurflen CO2** lle bydd yn disgrifio'r feddyginiaeth. Bydd y clinigydd hefyd yn ardystio eich bod wedi cael esboniad o'r feddyginiaeth a'ch bod wedi cytuno i'w chymryd
- Dylai **Ffurflen CO2** a'ch cydsyniad gael eu hadolygu'n rheolaidd gan eich clinigydd
- Bydd yr Adolygwyr hefyd yn gwirio **Ffurflen CO2** pan fyddant yn ymweld â'ch ysbyty.

## Os byddaf yn cytuno i gymryd y feddyginiaeth, a allaf newid fy meddwl yn ddiweddarach?

- **Gallwch** - gallwch newid eich meddwl a thynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg, ond mae bob amser yn well siarad â'ch clinigydd cyn i chi wneud hynny
- Ar ôl siarad â'ch clinigydd, os byddwch yn dal yn awyddus i roi'r gorau i gymryd y feddyginiaeth ar ôl i'r cyfnod o dri mis fynd heibio, ac nad yw eich clinigydd yn cytuno, rhaid iddo roi gwybod i'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl, a fydd wedyn yn trefnu i Feddyg a Benodir i Roi Ail Farn ymweld â chi.

## Ar ôl y tri mis cyntaf o feddyginiaeth **heb** eich cydsyniad

- Os na fyddwch yn cydsynio neu os ydych yn rhy sâl i roi eich cydsyniad ar ôl y tri mis cyntaf o feddyginiaeth, rhaid i'ch clinigydd roi gwybod i'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl
- Yna bydd y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl yn trefnu i Feddyg a Benodir i Roi Ail Farn ymweld â chi
- Hyd nes y bydd y Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn wedi ymweld â chi ac wedi gwneud penderfyniad, gall eich clinigydd barhau i'w gwneud yn ofynnol i chi gymryd y feddyginiaeth.

## Beth mae'r Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn yn ei wneud?

- Yn gyntaf, bydd y Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn yn gwirio eich bod yn cael eich cadw'n gyfreithlon
- Yna bydd y Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn yn trafod y feddyginiaeth â chi, fel arfer yn breifat. Bydd yr ysbyty yn darparu dehonglydd neu arwyddwr os oes ei angen arnoch
- Bydd y Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn yn siarad â'r clinigydd sy'n gyfrifol am eich triniaeth ac â nyrs gofrestredig sydd wedi bod yn ymwneud â'ch gofal a'ch triniaeth
- Bydd hefyd yn ymgynghori ag un unigolyn arall sydd wedi bod yn ymwneud yn broffesiynol â'ch gofal, megis gweithiwr cymdeithasol, fferyllydd ysbyty, neu therapydd galwedigaethol
- Yna bydd y Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn yn ystyried a oes angen i chi barhau i gymryd y feddyginiaeth a roddwyd ar bresgripsiwn i chi
- Os bydd y Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn yn cytuno y dylech barhau i gymryd y feddyginiaeth, bydd yn cwblhau **Ffurflen CO3**, sy'n cynnwys disgrifiad o'r feddyginiaeth y mae'r Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn wedi cytuno y dylech ei chymryd. Mae'r Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn yn feddyg annibynnol ac efallai na fydd yn cytuno â rhai o'r meddyginiaethau neu'r holl feddyginiaethau a gynigiwyd
- Bydd y Clinigydd sy'n gyfrifol am eich triniaeth yn dweud wrthych am benderfyniad y Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn, a bydd yn dangos y rhesymau dros y penderfyniad hwn i chi
- Penderfyniad clinigol personol y Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn fydd y farn a roddir ganddo. Bydd y Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn yn anfon copi o **Ffurflen C03** wedi'i chwblhau i'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl, lle caiff ei gwirio'n ofalus iawn.

### Ni allwch apelio i'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl os ydych yn anghytuno â'r penderfyniad hwnnw.

## Triniaeth frys

Mewn amgylchiadau eithriadol, pan fo angen triniaeth ar frys, nid yw'r rheolau arferol ynghylch cydsynio i driniaeth yn berthnasol.

Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn caniatáu rhoi triniaeth frys i glaf os oes ei hangen er mwyn:

- Achub bywyd y claf
- Lleihau dioddefaint difrifol
- Atal cyflwr y claf rhag gwaethygu'n sylweddol
- Atal y claf rhag ymddwyn yn dreisgar neu fod yn berygl iddo/iddi ei hun neu i eraill.

# Pethau i'w cofio:

- Os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau am eich meddyginiaeth neu unrhyw fath arall o driniaeth feddygol, dylech eu trafod yn gyntaf â'r staff nyrsio a'r clinigydd sy'n gyfrifol am eich gofal
- Ar ôl y tri mis cyntaf o feddyginiaeth, rhaid i'ch clinigydd gael eich cydsyniad, neu gytundeb y Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn, cyn parhau â'r feddyginiaeth
- Mewn argyfwng, nid yw'r rheolau arferol ynghylch cydsynio i driniaeth yn berthnasol
- Os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau am y gwasanaeth Meddygon a Benodir i Roi Ail Farn, gallwch siarad ag Adolygydd sy'n ymweld neu gysylltu â swyddfa'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl ym Merthyr Tudful.
- Mae Cod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl yn rhoi mwy o arweiniad o ran y rheolau ynghylch cydsynio i driniaeth. Dylai copi fod ar gael ar bob ward – gofynnwch i staff y ward am hyn
- Os oes angen rhagor o help arnoch i ddeall eich hawl i wrthod meddyginiaeth neu unrhyw fath arall o driniaeth feddygol, dylech siarad â'r canlynol:
    - Eich clinigydd cyfrifol neu aelod arall o'ch tîm gofal
    - Eiriolwr iechyd meddwl annibynnol, grŵp cymorth defnyddwyr neu gyfreithiwr – Y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl.

# Therapi Electrogynhyrfol (ECT)

## Beth yw ECT?

ECT yw'r talfyriad Saesneg ar gyfer therapi electrogynhyrfol ('*electro-convulsive therapy*'). Bydd staff yr ysbyty yn eich helpu i ddeall beth yw ECT, ei ddiben, a'i effeithiau.

## Y rheolau cydsynio i driniaeth ar gyfer ECT

- Fel yn achos meddyginiaeth, ar ôl i chi gael eich cadw, mae angen eich cydsyniad er mwyn rhoi ECT, neu os ydych yn rhy sâl i roi eich cydsyniad, mae angen cytundeb Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn
- Os ydych yn ddigon iach i roi eich cydsyniad, ond eich bod yn gwrthod gwneud hynny, ni ellir rhoi ECT i chi
- Os ydych o dan 18 oed, dim ond gyda chytundeb Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn y gellir rhoi ECT i chi
- Mewn amgylchiadau eithriadol, pan fo angen ECT ar frys, gellir ei roi
- (gweler Triniaeth Frys ar dudalen 7 o'r daflen hon)
- Os ydych o dan 18 oed neu'n rhy sâl i roi eich cydsyniad i gael ECT, rhaid i'r clinigydd sy'n gyfrifol roi gwybod i'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl ei fod am i chi ei gael.
- Yna bydd y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl yn trefnu i Feddyg a Benodir i Roi Ail Farn ymweld â chi.

## Os byddwch yn cytuno i gael ECT, a allwch newid eich meddwl yn ddiweddarach?

- **Gallwch** - gallwch newid eich meddwl a thynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg, ond mae bob amser yn well siarad â'ch clinigydd cyn i chi wneud hynny.

## Beth mae'r Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn yn ei wneud?

- Dyma'r un broses â'r broses ar gyfer meddyginiaeth (gweler **Beth mae'r Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn yn ei wneud?** o dan Meddyginiaeth ar dudalen 6 y daflen hon).

# Gorchymyn Triniaeth Gymunedol

Os ydych yn y gymuned ar Orchymyn Triniaeth Gymunedol, gofynnir i Feddyg a Benodir i Roi Ail Farn ddarparu tystysgrif ar gyfer unrhyw driniaeth ar gyfer anhwylder meddwl (yn benodol meddyginiaeth neu therapi electrogynhyrfol). Fel arfer, darperir y dystysgrif hon o fewn y mis cyntaf ar ôl i'r Gorchymyn Triniaeth Gymunedol gael ei roi ar waith.

Bydd y Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn yn dilyn proses debyg i'r un ar gyfer meddyginiaeth (gweler tudalen 6). Ar ôl yr ymweliad, bydd y Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn, os yw'n briodol, yn cwblhau Ffurflen CO7.

**Ni allwch apelio i'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl os ydych yn anghytuno â phenderfyniad y Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn.**

# Gwybodaeth am y Weithdrefn Gwyno
# Beth i'w wneud os ydych am wneud cwyn

- Os ydych chi, neu os oeddech chi, yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Iechyd Meddwl a bod gennych gŵyn am rywbeth sydd wedi digwydd, dylech ofyn i'r sefydliad a oedd yn gyfrifol am eich gofal (yr ysbyty, y bwrdd iechyd, ymddiriedolaeth y GIG neu'r awdurdod lleol) ymchwilio i'r gŵyn yn gyntaf. Cyfeirir at hyn yn aml fel datrysiad lleol [**comisiynyddph.cymru**], [**agic.org.uk**]
- Dylech ysgrifennu at dîm cwynion y sefydliad dan sylw, neu siarad â'r tîm, neu ofyn i rywun wneud hyn ar eich rhan.
- Os ydych yn ei chael yn anodd gwneud eich cwyn, mae'n bosibl y gall gwasanaeth eirioli eich helpu drwy'r broses.
- Os yw eich cwyn yn ymwneud â gwasanaethau'r GIG neu'r gwasanaethau cymdeithasol, gall Llais ddarparu gwasanaeth eirioli a chymorth annibynnol am ddim mewn perthynas â chwynion [**llyw.cymru**]
- Os yw eich cwyn yn ymwneud â rhywbeth difrifol iawn (er enghraifft, os ymosodwyd arnoch), dylech godi hyn gyda'r staff cyn gynted â phosibl fel y gellir ymchwilio i'r mater yn briodol.
- Bydd y sefydliad yn ymchwilio i'ch cwyn ac yn darparu ymateb yn nodi ei ganfyddiadau ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd.

## Beth i'w wneud os nad ydych yn fodlon o hyd

Os yw eich cwyn yn ymwneud ag un o wasanaethau'r GIG a'ch bod yn parhau'n anfodlon ar ôl i'r sefydliad ymateb i'ch cwyn, gallwch gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a all ystyried a ymdriniwyd â'r gŵyn yn briodol ac a fu unrhyw achos o gamweinyddu neu fethiant gan y gwasanaeth.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ
**Ffôn: 0300 790 0203**
**Gwefan: www.ombwdsmon.cymru**

Os yw eich cwyn yn ymwneud â gwasanaeth gan ddarparwr gofal iechyd annibynnol (preifat) a ariannwyd gan y GIG, dylech godi eich pryderon gyda'r darparwr yn gyntaf. Os na chaiff y gŵyn ei datrys, dylech gysylltu â sefydliad y GIG a oedd yn gyfrifol am ariannu eich gofal.

Os yw eich cwyn yn ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol ac na chaiff ei datrys drwy weithdrefn gwyno'r awdurdod lleol, gallwch hefyd gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## Y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl a Chwynion

**Efallai y bydd y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl yn gallu helpu:**

- Os yw eich cwyn yn ymwneud â'r ffordd y defnyddiodd rhywun ei bwerau neu y cyflawnodd rhywun ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl mewn perthynas ag unigolyn sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf.

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'r Gwasanaeth Adolygu yn disgwyl i gŵynion gael eu hystyried drwy'r prosesau cwyno a amlinellir uchod. Fodd bynnag, gall y Gwasanaeth Adolygu ystyried pryderon a godwyd fel rhan o'i waith o fonitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ac ansawdd gwasanaethau. Er enghraifft, lle nodir nifer o bryderon tebyg, gall hyn gyfrannu at weithgarwch monitro neu ymweliadau yn y dyfodol gan y Gwasanaeth Adolygu neu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

**Ni all y Gwasanaeth Adolygu helpu:**

- Os nad yw eich cwyn o'r math a nodir uchod
- Os yw eich cwyn yn destun achos cyfreithiol, neu'n debygol o fod yn destun achos cyfreithiol

- Os mai sail eich cwyn yn syml yw eich bod yn anghytuno â phenderfyniadau clinigol eich meddyg
- Os mai sail eich cwyn yn syml yw eich bod yn cael eich cadw neu eich trin yn erbyn eich ewyllys.

Nid oes gan y Gwasanaeth Adolygu unrhyw bŵer i'ch rhyddhau. Yn lle hynny, dylech wneud cais i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ystyried eich achos o gael eich cadw neu eich Gorchymyn Triniaeth Gymunedol.

Gallwch hefyd ofyn i reolwyr yr ysbyty ystyried eich rhyddhau. Gall nyrs, eiriolwr neu wasanaeth cynghori eich helpu i wneud y naill neu'r llall neu'r ddau beth hyn.

**Ni allwch apelio i'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl os ydych yn anghytuno â phenderfyniad y Meddyg a Benodir i Roi Ail Farn.**

## Sefydliadau Eraill a Allai Ystyried Eich Cwyn

Mae nifer o sefydliadau eraill a allai gynorthwyo neu ystyried cwynion. Mae gan bob un ei bwerau, ei bolisïau a'i weithdrefnau ei hun mewn perthynas â'r materion y gall ymchwilio iddynt.

### Gwasanaethau Cymdeithasol a Chartrefi Gofal Cofrestredig

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**
**Ffôn:** **0300 790 0126**
**E-bost:** **AGC@llyw.cymru**
**Gwefan:** **www.arolygiaethgofal.cymru**

### Gwasanaethau a Ddarperir i Bobl Dan 18 Oed

**Comisiynydd Plant Cymru**
Tŷ Llewellyn
Parc Busnes Glan yr Harbwr
Heol yr Harbwr
Port Talbot
SA13 1SB
**Ffôn:** **01792 765600**
**Rhadffôn:** **0808 801 1000**
**E-bost:** **post@complantcymru.org.uk**

### Gwasanaethau a Ddarperir i Bobl Hŷn

**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Tre-biwt
Caerdydd
CF10 5FL
**Ffôn:** **03442 640 670**
**E-bost:** **gofyn@comisiynyddph.cymru**

## Sut Mae Cysylltu ag Adolygydd?

- Gallwch ofyn i staff yr ysbyty drefnu apwyntiad i chi gwrdd ag Adolygydd pan fydd yn ymweld â'r ysbyty nesaf
- Gallwch ofyn am gael gweld yr Adolygydd pan fydd yn ymweld â'r ward.

### Os nad yw'r Adolygwyr yn bwriadu ymweld â'ch ward yn y dyfodol agos:

- Gallwch naill ai ysgrifennu llythyr neu anfon neges e-bost i'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl yn **HIW.RSMH@gov.wales**
- Gallwch gysylltu â'r swyddfa ar **0300 062 8163**. Mae llinellau ffôn AGIC ar agor rhwng 10:00am a 3:00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau cyhoeddus)
- Pan fydd y swyddfa ar gau, mae gwasanaeth ateb ar gael
- Os byddwch yn defnyddio'r gwasanaeth ateb, gadewch eich enw a'ch ward/cyfeiriad eich cartref neu rif ffôn fel y gall rhywun gysylltu â chi
- Os nad ydych am ddefnyddio'r gwasanaeth ateb, gallwch ffonio yn ystod yr oriau agor arferol neu ofyn i berthynas, ffrind neu eiriolwr gysylltu â ni ar eich rhan.

# Polisi Preifatrwydd: Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ddiogelu unrhyw wybodaeth bersonol y byddwn yn ei chasglu gennych. Rydym yn defnyddio technolegau a meddalwedd amgryptio blaengar i ddiogelu eich data, ac yn cadw at safonau diogelwch caeth er mwyn atal unrhyw fynediad heb awdurdod atynt.

Nid ydym yn trosglwyddo eich manylion i unrhyw drydydd parti nac adran arall o'r llywodraeth.

## Eich hawliau

O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, mae gennych hawliau fel unigolyn y gallwch eu harfer mewn perthynas â'r wybodaeth a ddelir gennym amdanoch, sef:

- Yr hawl i gael gafael ar gopi o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn eich data personol
- Yr hawl i wrthwynebu unrhyw waith prosesu sy'n debygol o achosi niwed neu ofid neu sy'n achosi niwed neu ofid
- Yr hawl i atal gwaith prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol
- Yr hawl i wrthwynebu penderfyniadau sy'n cael eu gwneud drwy ddulliau awtomataidd
- Yr hawl, o dan amgylchiadau penodol, i gael data personol anghywir wedi'u cywiro, eu blocio, eu dileu neu eu dinistrio
- Yr hawl i hawlio iawndal am ddifrod a achosir gan achos o dorri'r Ddeddf.

Cyfeiriwch at ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth am Bolisi Preifatrwydd AGIC – **agic.org.uk/polisi-preifatrwydd**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl a'i waith, neu os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau a amlinellir uchod, cysylltwch â ni yn:

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
**Ffôn: 0300 062 8163**

Mae manylion llawn am sut rydym yn cydymffurfio â'r Ddeddf ar gael ar ein gwefan yn **agic.org.uk**, neu drwy gysylltu â ni.